| | |
|---|---|
| CYFARFOD | PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| DYDDIAD | 29 MAI 2012 |
| PWNC | PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD |
| PWRPAS | ENWEBU SWYDDOG I'R SWYDD |
| AWDUR | HARRY THOMAS, PRIF WEITHREDWR |

1. Dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyn i'r Cyngor enwebu un o'u swyddogion i swydd statudol newydd sef "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd". Mae gofyn hefyd i'r cyngor roi digon o gymorth i'r swyddog allu gwneud ei waith.

2. Mae'r penodiad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Cyngor.

3. Ni ellir penodi'r Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro na'r Prif Swyddog Cyllid yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Mae'r swydd yn un sy'n cario cyfyngiadau gwleidyddol yn yr un modd â swyddi penaethiaid gwasanaeth eraill (h.y. ni all deilydd y swydd gymryd rhan amlwg mewn gweithgaredd wleidyddol).

4. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ydi:

   a) Rhoi cymorth a chyngor

   - I'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd
   - I bwyllgorau'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny
   - I unrhyw gydbwyllgor
   - I aelodau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau craffu
   - I bob aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'u gwaith

   b) Hybu rôl y pwyllgorau craffu

   c) Rhoi adroddiadau am nifer a graddau'r staff mae ei angen i gyflawni ei ddyletswyddau.

5. Mae'r swyddogaethau uchod wedi eu rhannu ar hyn o bryd rhwng y Swyddog Monitro a'r Pennaeth Strategol a Gwella. Gan na all y Swyddog Monitro barhau i ymgymryd â'r dylestwyddau cefnogi aelodau, o ganlyniad i'r Mesur, aed ati i ailstrwythuro fel bod y dyletswyddau i gyd yn dod yn gyfrifoldeb i'r Pennaeth Strategol a Gwella.

6. Bellach mae strwythur yr Adran Strategol a Gwella yn cynnwys adain yn ymwneud yn unig gyda chefnogaeth aelodau, dan arweiniad Rheolwr Aelodau – Gwasanaethau Democrataidd. Yr adain hon fydd yn darparu'r gefnogaeth i bwyllgorau, i aelodau ac i graffu.

7. Yn dilyn argymhelliad gan y Gweithgor Gwasnanaethau Aelodau a’r Prif Bwyllgor Craffu, penderfynwyd yn y Cyngor ar 15 Rhagfyr 2011, er mwyn sicrhau cefnogaeth gref i aelodau mainc gefn, y dylid cael rhaniad clir rhwng y swyddogion sy’n cefnogi’r Cabinet a’r swyddogion sy’n cefnogi’r aelodau mainc gefn, y pwyllgorau craffu a’r pwyllgorau eraill.

8. Er mwyn gwireddu’r penderfyniad yma aed ymlaen i sefydlu tim ar wahan i gefngoi’r Cabinet, a’i leoli o fewn adran y Swyddog Monitro.

ARGYMHELLIAD

9. Gofynnir i’r Pwyllgor ystyried y trefniadau, ac os yw’n fodlon arnynt, i ddynodi y Pennaeth Strategol a Gwella yn ffurfiol i’r swydd Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.